Home Office

**Y Swyddfa Gartref**

# Canllawiau ar Weinyddu'r Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS)

Ebrill 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/foreign-influence-registration-scheme

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn FIRS@homeoffice.gov.uk.

# Cynnwys

Ynglŷn â'r canllawiau hyn 2

Cyflwyniad 3

Cylch Gwaith y Tîm Rheoli Achosion 3

Cysylltu â'r tîm rheoli achosion 4

# Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS) yn gynllun dwy haen sy'n sicrhau tryloywder dylanwad tramor yng ngwleidyddiaeth y DU ac yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch gweithgareddau rhai pwerau neu endidau tramor a allai beri risg i ddiogelwch a buddiannau'r DU. Mae wedi'i gynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023.

Mae'r cynllun yn cynnwys dwy haen, ac mae gan bob un ofynion ar wahân. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am y gofynion hyn yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol a'r canllawiau ar yr haen well.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r cynllun yn cael ei weinyddu.

# Cyflwyniad

1. Caiff y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor ei weinyddu gan Dîm Rheoli Achosion (CMT) sydd wedi'i leoli yn y Swyddfa Gartref.

## Cylch Gwaith y Tîm Rheoli AchosionTeam

2. Mae cylch gwaith y tîm rheoli achosion yn cynnwys:
    - Gwirio ansawdd gwybodaeth a ddarperir wrth gofrestru ac fel rhan o newid sylweddol. Pan ddarperir gwybodaeth annigonol neu aneglur, gallant gysylltu â'r cofrestrydd i gael eglurhad.
    - Cyhoeddi gwybodaeth ar y gofrestr gyhoeddus, lle bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys asesu a ddylai eithriad i gyhoeddi fod yn berthnasol.
    - Cyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth lle bo'n briodol.
    - Cynnal y gwasanaeth cofrestru ar-lein a'r gofrestr gyhoeddus.
    - Adolygu cofrestriadau agored i sicrhau bod y gofrestr gyhoeddus yn parhau i fod yn gyfredol.
    - Dilysu cadarnhadau cofrestru, pan gysylltir â rhywun sy'n gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy.

3. Ni fydd y Tîm Rheoli Achosion yn cymeradwyo na gwrthod cofrestriadau. Felly nid oes angen aros i'r Tîm Rheoli Achosion gymeradwyo cofrestriad cyn dechrau neu barhau â gweithgareddau o fewn cwmpas y cynllun.

4. Ni all y Tîm Rheoli Achosion roi cyngor pendant ynghylch a yw trefniant yn gofrestradwy o dan FIRS, fodd bynnag gallant atgyfeirio cofrestreion at ganllawiau perthnasol. Fodd bynnag, gallant ateb ymholiadau ynghylch sut i gydymffurfio â'r gofynion. Mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y cofrestreion eu hunain i ymgyfarwyddo â'r cynllun a phenderfynu a ydynt yn cael eu heffeithio gan y gofynion.

# Cysylltu â'r Tîm Rheoli Achosion

5. Unwaith y bydd y cynllun wedi mynd yn fyw, gellir cysylltu â'r tîm rheoli achosion drwy'r gwasanaeth cofrestru ar-lein.

6. Cyn cysylltu â'r tîm rheoli achosion, cyfeiriwch at y canllawiau perthnasol:

   - Gellir dod o hyd i wybodaeth am ofynion yr haen dylanwad gwleidyddol yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol.
   - Gellir dod o hyd i wybodaeth am ofynion yr haen uwch yn y canllawiau ar yr haen uwch.v
   - Gellir dod o hyd i fanylion y wybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru a gweithrediad y gofrestr gyhoeddus yn y canllawiau ar y wybodaeth sydd ei hangen wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus.
   - Gellir dod o hyd i fanylion am sut mae hysbysiadau gwybodaeth yn gweithio yn y canllawiau ar hysbysiadau gwybodaeth.